Celf a Dylunio
Pawb

# Wynebau Coed

- Cerfluniau naturiol



## Trosolwg

Mae'r gweithgaredd ymarferol yma'n annog y defnydd o amrywiaeth o ddeunyddiau ar gyfer cerflunio naturiol a bydd yn gwella creadigrwydd a sgiliau motor.

## Adnoddau

- Sawl coeden aeddfed
- Clai
- Deunyddiau naturiol fel dail, brigau a hadau

## Gweithgaredd

1. Cerddwch o amgylch tir yr ysgol gan archwilio siapiau a gweadau'r rhisgl ar y coed. Edrychwch ar sut mae nodweddion naturiol – fel clymau, cnotiau a chreithiau – yn awgrymu nodweddion wyneb yn naturiol.
2. Rhowch lwmp o glai yr un i'r plant a mynediad at ddeunyddiau naturiol.
3. Gadewch i'r disgyblion ddewis y goeden maen nhw eisiau gweithio arni – os yn bosibl, gan ymgorffori nodweddion naturiol rhisgl y goeden.
4. Pan fydd pob grŵp wedi gorffen, gadewch i bawb edrych ar waith ei gilydd.

## Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydym yn deall y byddwch chi, fel addysgwr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Defnyddio clai i greu cerflun naturiol
- Creu a disgrifio cymeriad ar gyfer stori

Isod mae syniadau y mae addysgwyr eraill wedi'u defnyddio gyda'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

| Maes pwnc | Testun | Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach |
|---|---|---|
| Llythrennedd ac Iaith | Ysgrifennu disgrifiadol | Ysgrifennu brawddegau disgrifiadol neu broffil cymeriad |
| | Ysgrifennu ffuglen | Creu cymeriadau a'u defnyddio mewn stori |
| Hanes | Cymeriadau hanesyddol | Archwilio gargoeliau a'u defnydd mewn pensaernïaeth hanesyddol |
| Cyfrifiadura | Cyfryngau | Tynnu ffotograffau o'r wynebau a'u defnyddio i wneud fideos |
| Hanes Celf | Cerfluniau traddodiadol | Ymchwilio i hanes cymeriad y Dyn Gwyrdd a'i ystyr mewn diwylliannau gwahanol |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: ltl.org.uk/outdoor-learning-training

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890